# YSGOL BRYNREFAIL

## PÊL DROED – CWPAN CYMRU dan 18

### Sul 9fed Mai 2010

### Park Hall, Croesoswallt

### Ysgol Brynrefail 8 Ysgol Tonypandy 4

Dyma'r drydedd ffeinal mewn dau ddiwrnod i Ysgol Brynrefail a'r ornest fwyaf gyffroes eto. Fe gamodd Aled Hughes, y capten, ar y cae, yn arwain ei dim i'r gêm a chynhaliaeth y cefnogwyr yn canu yn eu clustiau.

O'r dechrau cychwyn yr oedd brwydro ffyrnig rhwng y ddau dîm, taclo caled, penio cadarn, pasio gwych. Ond a dim ond un munud ar y cloc cafodd Brynrefail gic cosb
ar ffin bocs Tonypandy a chwipiodd Jamie McDaid ergyd nerthol i gefn y rhwyd -y gôl cyflymaf yn hanes yr ornest. O hynny ymlaen, a choeliwch neu beidio, newidiodd y sgôr chwe gwaith cyn hanner amser pryd welwyd y sgôr yn 4-3 i Ysgol Brynrefail a Jamie McDaid eisoes wedi sgorio 'hat trick' a Llion Jones wedi sgorio un.

Bu'r ail hanner  yn fwy cyffroes na'r hanner cyntaf gyda dau chwaraewr, un o bob tîm yn cael anaf pen a chwaraewr o Donypandy yn cael cerdyn coch. Ond yr oedd hogiau Brynrefail yn rheoli'r chwarae ac yn chwarae pêl droed gwych. O Iwan Price, oedd yn feistrolgar yn y cefn i Gethin Green a Dyfan Coles oedd yn pwyso ar amddiffyn Tonypandy yn ddidrugaredd chwaraeodd y tîm bel droed caboledig a tua diwedd y gêm yr oedd Jamie McDaid wedi sgorio dau gol arall a Dyfan Coles a Meurig Parry wedi cyfrannu un yr un. Er i Donypandy sgorio gôl gysur hwyr y sgôr ar y diwedd oedd Brynrefail 8 Tonypandy 4 a bu cymeradwyaeth croch pan gododd Aled y gwpan uwch ei ben.

Hogia ni – da 'de